**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/FM -/0827/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddMCD@cynulliad.cymru

7 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 28 Tachwedd, yn mynegi eich pryderon am yr offeryn statudol uchod.

Fel y gwyddoch, rydym yn cynnal rhaglen ddeddfwriaethol fawr i fynd i'r afael â diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir, gan ddefnyddio pwerau yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael"). Er mwyn sicrhau bod gennym lyfr statud gweithredol ar y diwrnod ymadael, cytunwyd – pan nad oes gwahaniaeth o ran polisi – y byddai offerynnau statudol ymadael y DU yn gymwys mewn perthynas â Chymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

Ni ellir defnyddio'r pŵer galluogi yn y Ddeddf Ymadael i gyflwyno polisïau newydd, ond gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Adlewyrchir hyn yn nhestun y Cytundeb Rhynglywodraethol, sy'n nodi na fydd defnydd y DU o'r pŵer i gywiro diffygion yn cael ei ddefnyddio i wneud polisi newydd mewn meysydd datganoledig. Ychwanegir hefyd mai pwerau at ddiben effeithlonrwydd gweinyddol fydd y rhain yn bennaf.

O ran yr offeryn penodol hwn, mae'r diwygiadau yn mynd i'r afael â diffygion mewn deddfwriaeth yn ymwneud â lles anifeiliaid, a fydd yn codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r diwygiadau dan sylw yn ymdrin â diffyg o ran cydnabod tystysgrifau cymhwysedd cigyddwyr, a ddyroddwyd yn Aelod Wladwriaethau'r UE, yn y DU ar ôl y diwrnod ymadael. Gan y bydd tystysgrifau yn dal i gael eu cydnabod mewn Aelod Wladwriaethau eraill ar ôl yr ymadawiad, ni fyddai'n bosibl gorfodi gofynion y ddeddfwriaeth drwy ddirymu neu atal y tystysgrifau hyn, ac mae'r diwygiadau'n dileu'r gydnabyddiaeth hon er mwyn hwyluso'r broses orfodi. Nid yw hwn yn bolisi newydd fel y cyfryw, ond yn gywiriad angenrheidiol i fynd i'r afael â diffyg a fyddai'n codi fel arall.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadarnhau mai dim ond ar bum unigolyn mewn dau ladd-dy yng Nghymru y byddai hyn yn effeithio. Byddai angen i'r rheini gael tystysgrifau cymhwysedd y DU ar ôl yr ymadawiad.

Er y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi gwneud y newid hwn, barnwyd, gan nad oedd gwahaniaeth o ran polisi ac er mwyn effeithlonrwydd gweinyddol, y byddai modd rhoi'r newid hwn ar waith drwy Offeryn Cywiro gan y DU.

Rwy'n anfon copi o'm hymateb at Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, a Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, sef y rhai a gafodd gopi o'ch gohebiaeth wreiddiol, dyddiedig 28 Tachwedd.

Rwy'n gobeithio fod fy ymateb yn ddigon i leddfu eich pryderon.

Yn gywir

**CARWYN JONES**